# Cyngor Gwynedd

**Cais am drwydded bersonol**

Cyn llenwi'r ffurflen hon, darllenwch y nodiadau canllaw ar ddiwedd y ffurflen os gwelwch yn dda.

Os ydych yn ysgrifennu'r ffurflen hon, gwnewch hynny yn eglur mewn llythrennau bras. Ym mhob achos sicrhewch fod eich atebion tu mewn i'r bocs ac wedi'u hysgrifennu neu wedi eu teipio mewn inc du. Defnyddiwch dudalennau ychwanegol os oes angen.

Efallai y byddwch yn dymuno cadw copi o'r ffurflen orffenedig ar gyfer eich cofnodion eich hun.

| **1. Eich manylion personol** | | | |
|---|---|---|---|
| **TEITL Ticiwch y blwch**<br>Mr Mrs Miss Arall (nodwch) ☐☐☐☐ | | | |
| Cyfenw<br>Enw(au) cyntaf | | | |
| **ENWAU BLAENOROL (os yn berthnasol) nodwch fanylion unrhyw enwau blaenorol neu enw cyn priodi. Defnyddiwch dudalen ar wahân os oes angen.** | | | |
| **TEITL Ticiwch y blwch**<br>Mr Mrs Miss Arall (nodwch) ☐☐☐☐ | | | |
| Cyfenw<br>Enw(au) cyntaf | | | |
| Dyddiad Geni<br>Cenedl | | | |
| **Rwyf yn 18 mlwydd oed neu drosodd. Ticiwch y blwch** | | Ydw ☐ | Na ☐ |
| **CYFEIRIAD BLE RYDYCH FEL ARFER YN BYW (Dyma'r cyfeiriad y byddwn yn ei ddefnyddio i gysylltu â chi oni bai eich bod yn llenwi'r blwch cyfeiriad arall, isod).** | | | |
| | | | |

| **Tref bost** | **Cod Post** |
|---|---|
| | |

| **RHIFAU FFÔN** | |
|---|---|
| Dydd | |
| Gyda’r nos | |
| Ffôn Symudol | |
| **RHIF FFACS** | |
| **CYFEIRIAD E-BOST (Pe bai'n well gennych chi i ni gysylltu â chi drwy e-bost)** | |

**Cyfeiriad ar gyfer gohebiaeth sy’n gysylltiedig â’r cais hwn (os yw'n wahanol i'r cyfeiriad uchod)**

| **Tref bost** | **Cod Post** |
|---|---|
| | |

| **RHIFAU FFÔN** | |
|---|---|
| Dydd | |
| Gyda’r nos | |
| Ffôn Symudol | |
| **CYFEIRIAD E-BOST (Pe bai'n well gennych chi i ni gysylltu â chi drwy e-bost)** | |

| **2. Eich cymwysterau trwyddedu** | |
|---|---|
| Darllenwch Nodyn 1 | **Ticiwch oes** |
| Nodwch p’run o’r datganiadau isod sy’n berthnasol i chi: | |
| **1.** Mae gen i gymhwyster trwyddedu achredig | ☐ |
| **2.** Mae gen i gymhwyster ardystiedig | ☐ |
| **3.** Mae gen i gymhwyster cyfwerth | ☐ |
| **4.** Rwy'n berson o ddisgrifiad penodedig | ☐ |
| Os ydych wedi roi tic i ddatganiadau 1, 2 neu 3 rhowch fanylion am eich cymhwyster yn y bocs isod (enw'r cymhwyster, dyddiad cyflwyno, corff cyflwyno) ac amgaewch eich cymhwyster gyda'ch cais.<br>Os ydych wedi rhoi tic i ddatganiad 4, darparwch dystiolaeth eich bod yn berson o ddisgrifiad penodedig. | |

| |
|---|
| |
| |

| **3. Ceisiadau blaenorol neu geisiadau sydd heb eu trin am drwydded bersonol** | | |
|---|---|---|
| Noder: Dim ond un trwydded bersonol a gewch ar yr un pryd.<br>**Ticiwch y blwch** | | |
| A oes gennych drwydded bersonol ar hyn o bryd? | Oes ☐ | Na ☐ |
| A oes gennych chi unrhyw geisiadau sydd heb eu trin am drwydded bersonol, gyda'r awdurdod trwyddedu hwn neu awdurdod trwyddedu arall? | Oes ☐ | Na ☐ |
| A oes unrhyw drwydded bersonol sydd gennych wedi cael ei hatafaelu yn y 5 mlynedd diwethaf? | Oes ☐ | Na ☐ |

| | |
|---|---|
| Awdurdod Trwyddedu | |
| Rhif y Drwydded | |
| Dyddiad Cyflwyno | |
| Unrhyw fanylion pellach | |

| **4. RHESTR WIRIO:** | |
|---|---|
| **Rwyf wedi** | **Ticiwch do** |
| • amgáu dau ffotograff ohonof fy hun, un sydd wedi ei gadarnhau fel gwir ddarlun ohonof gan gyfreithiwr neu notari, person o statws yn y gymuned neu unrhyw unigolyn gyda chymhwyster proffesiynol | ☐ |
| • amgáu unrhyw gymhwyster trwyddedu sydd gennyf neu brawf fy mod yn berson o ddisgrifiad penodedig | ☐ |
| • amgáu tystysgrif o gollfarn droseddol neu dystysgrif cofnod troseddol neu ganlyniadau chwiliad mynediad at ddata gan y testun o gyfrifiadur cenedlaethol yr heddlu gan y Gwasanaeth Cenedlaethol Adnabod Troseddwyr | ☐ |
| • amgáu ffurflen ddatgan a datgelu euogfarnau troseddol wedi ei chwblhau (Atodlen 3) | ☐ |
| • wedi cynnwys prawf o fy hawl i weithio yn y Deyrnas Unedig (gweler nodyn 2) | ☐ |
| • wedi talu neu yn amgáu tâl am ffi'r cais | |

| 5. Datganiad | | | |
|---|---|---|---|
| **Mae gennyf hawl i weithio yn y DU ac nid wyf yn ddarostyngedig i amod sy'n fy atal rhag gwneud gwaith sy'n ymwneud â gweithgaredd trwyddedadwy. Deallaf y bydd fy nhrwydded yn mynd yn annilys os daw fy hawl i fyw a gweithio yn y DU i ben.**<br><br>**Mae'r wybodaeth a nodir yn y ffurflen hon yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred.**<br><br>Mae gwneud datganiad ffug, unai ar gam neu yn fwriadol mewn cais, neu mewn cysylltiad â chais i ganiatáu neu adnewyddu trwydded bersonol yn drosedd. (Dylid ystyried fod person wedi gwneud datganiad ffug os bydd yn darparu, cyflenwi, llofnodi neu'n defnyddio dogfen sy'n cynnwys datganiad ffug). Gallai gwneud hyn arwain at gael eich erlyn a dirwy am unrhyw swm. Mae'n drosedd dan adran 24B o Ddeddf Mewnfudo 1971 i weithio yn anghyfreithlon. | | | |
| **LLOFNOD** | | **DYDDIAD** | |

**NODIADAU**

Mae gwybodaeth ar Ddeddf Trwyddedu 2003 ar gael yn legislation.gov.uk neu gan eich awdurdod trwyddedu lleol.

**1. Cymwysterau trwyddedu**
Mae cymwysterau trwyddedu yn cael eu trin dan adran 120(8) a (9) o Ddeddf Trwyddedu 2003.

**2. Hawl i weithio / statws mewnfudo:**

Ni ellir cyflwyno trwydded bersonol i unigolyn neu i unigolyn mewn partneriaeth sydd ddim yn bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn y DU os:

- nad oes ganddynt yr hawl i fyw a gweithio yn y DU; neu
- yn ddarostyngedig i amod sy'n atal y person rhag gwneud gwaith yn ymwneud â gweithgaredd trwyddedadwy.

Bydd unrhyw drwydded bersonol a roddwyd mewn perthynas â chais a wnaed ar neu ar ôl 6 Ebrill 2017 yn mynd yn annilys os yw'r deiliad yn colli'r hawl i weithio yn y DU.

Rhaid i ymgeiswyr arddangos fod ganddynt yr hawl i weithio yn y DU ac nid ydynt yn ddarostyngedig i amod sy'n eu hatal rhag gwneud gwaith yn ymwneud â gweithgaredd trwyddedadwy. Maent yn gwneud hyn drwy ddarparu copïau neu gopïau wedi'u sganio o'r dogfennau a ganlyn (sydd ddim angen cael eu hardystio) ynghyd â'r cais hwn.

**Dogfennau sy'n arddangos yr hawl i weithio yn y DU**

- Pasbort cyfredol neu un sydd wedi dod i ben sy'n dangos fod y deiliad, neu'r person a enwyd yn y pasbort fel plentyn y deiliad, yn ddinesydd Prydeinig neu dinesydd o'r DU a'i Threfedigaethau sydd â'r hawl i fyw yn y DU [gweler y nodyn isod ynglŷn â pha rannau o'r pasbort i'w copio].

- Pasbort cyfredol neu un sydd wedi dod i ben neu gerdyn adnabod cenedlaethol sy'n dangos fod y deiliad, neu berson a enwyd yn y pasbort fel plentyn y deiliad, yn ddinesydd o wlad Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir.

- Tystysgrif Cofrestru neu ddogfen sy'n ardystio preswylio parhaol a gyflwynwyd gan y Swyddfa Gartref i ddinesydd o wlad Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir.

- Cerdyn Preswylio Parhaol wedi ei gyflwyno gan y Swyddfa Gartref i aelod o deulu dinesydd o wlad Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir.

- Dogfen Mewnfudo Biometrig **gyfredol** (Trwydded Preswylio Biometrig) a gyflwynwyd gan y Swyddfa Gartref i'r deiliad sy'n dangos fod y person a enwyd â'r hawl i aros am gyfnod amhenodol yn y DU, neu nad oes cyfyngiad amser ar ei arhosiad yn y DU.

- Pasbort **cyfredol** a gadarnhawyd i ddangos fod y deiliad wedi ei eithrio rhag rheolaeth mewnfudo, ac y caniateir i aros am gyfnod amhenodol yn y DU, gyda'r hawl i fyw yn y DU, neu nad oes cyfyngiad amser ar ei arhosiad yn y DU.

- Dogfen Statws Mewnfudo **gyfredol** a gyflwynwyd gan y Swyddfa Gartref i'r deiliad gyda chadarnhad sy'n dangos fod y person a enwyd yn cael caniatâd i aros am gyfnod amhenodol yn y DU, neu nad oes cyfyngiad amser ar ei arhosiad yn y DU, **pan ddangosir ar y cyd â**

dogfen swyddogol sy'n rhoi rhif Yswiriant Cenedlaethol parhaol yr unigolyn a'i enw a gyflwynwyd gan asiantaeth y Llywodraeth neu gyflogwr blaenorol.

- Tystysgrif geni neu fabwysiadu **llawn** a gyflwynwyd yn y DU sy'n cynnwys enw(au) o leiaf un o rieni'r deiliad neu rieni mabwysiedig, **pan ddangosir ar y cyd gyda** dogfen swyddogol sy'n rhoi rhif Yswiriant Cenedlaethol parhaol yr unigolyn a'i enw a gyflwynwyd gan asiantaeth y Llywodraeth neu gyflogwr blaenorol.

- Tystysgrif geni neu fabwysiadu a gyflwynwyd yn Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw neu Iwerddon **pan ddangosir ar y cyd gyda** dogfen swyddogol sy'n rhoi rhif Yswiriant Cenedlaethol parhaol yr unigolyn a'i enw a gyflwynwyd gan asiantaeth y Llywodraeth neu gyflogwr blaenorol.

- Tystysgrif cofrestru neu ddinasyddiad fel dinesydd Prydeinig, **pan ddangosir ar y cyd gyda** dogfen swyddogol sy'n rhoi rhif Yswiriant Cenedlaethol parhaol yr unigolyn a'i enw a gyflwynwyd gan asiantaeth y Llywodraeth neu gyflogwr blaenorol.

- Pasbort **cyfredol** a gadarnhawyd i ddangos y caniateir i'r deiliad aros yn y DU ac y caniateir iddo yn gyfredol i weithio ac nad yw'n ddarostyngedig i amod sy'n atal y deiliad rhag gwneud gwaith sy'n ymwneud â gweithgaredd trwyddedadwy.

- Dogfen Mewnfudo Biometrig **gyfredol** (Trwydded Preswylio Biometrig) a gyflwynwyd gan y Swyddfa Gartref i'r deiliad sy'n dangos y caniateir i'r person a enwyd i aros yn gyfredol yn y DU ac y caniateir iddo weithio mewn perthynas â gweithgaredd trwyddedadwy.

- Cerdyn Preswyliaeth **cyfredol** a gyflwynwyd gan y Swyddfa Gartref i unigolyn sydd ddim yn ddinesydd o wlad yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd na'r Swistir ond sydd yn aelod o deulu dinesydd o'r fath neu sydd â hawliau deilliannol neu breswyliaeth.

- Dogfen Statws Mewnfudo **gyfredol** sy'n cynnwys ffotograff a gyflwynwyd gan y Swyddfa Gartref i'r deiliad gyda chadarnhad sy'n dangos fod y person a enwyd yn cael caniatâd i aros yn y DU, a caniateir iddo weithio ac nid yw ddarostyngedig i amod sy'n atal y deiliad rhag gwneud gwaith sy'n ymwneud â gweithgaredd trwyddedadwy **pan gaiff ei dangos ar y cyd** gyda dogfen swyddogol sy'n rhoi rhif Yswiriant Cenedlaethol parhaol yr unigolyn a'i enw a gyflwynwyd gan asiantaeth y Llywodraeth neu gyflogwr blaenorol.

- Tystysgrif Cais, **sy'n llai na 6 mis oed**, gyflwynwyd gan y Swyddfa Gartref dan reoliad 17(3) neu 18A o Reoliadau Mewnfudo (Ardal Economaidd Ewropeaidd) 2006, i berson sydd ddim yn ddinesydd o wlad Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir ond sydd ag aelod o'r teulu sy'n ddinesydd o'r fath neu sydd â hawliau preswylio deilliannol.

- Tystiolaeth resymol bod gan y person gais heb ei benderfynu i amrywio'i ganiatâd i fod yn y DU gyda'r Swyddfa Gartref, megis llythyr cydnabyddiaeth neu brawf o bostio tystiolaeth, neu dystiolaeth resymol bod y person yn disgwyl apêl neu adolygiad gweinyddol ar benderfyniad mewnfudo, megis rhif cyfeirnod apêl neu adolygiad gweinyddol.

- Tystiolaeth resymol bod person nad yw'n ddinesydd gwlad o fewn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir ond sy'n aelod teuluol i ddinesydd o'r fath neu sydd â hawliau preswyliaeth deilliadol i ymarfer hawliau cytundebol y DU, yn cynnwys:-

  - tystiolaeth o hunaniaeth yr ymgeisydd ei hun - megis pasbort,

- tystiolaeth o'i berthynas â'r aelod teuluol o Ardal Economaidd Ewropeaidd - e.e. tystysgrif priodas, tystysgrif partneriaeth sifil neu dystysgrif geni, a
- thystiolaeth bod gan y dinesydd o Ardal Economaidd Ewropeaidd hawl preswyliaeth barhaol yn y DU, neu yn un o'r isod os ydynt wedi bod yn y DU am fwy na thri mis:
  (i) gweithio, e.e. contract cyflogaeth, slipiau cyflog, llythyr gan y cyflogwr,
  (ii) hunangyflogedig, e.e. contractau, anfonebau, neu gyfrifon archwiliedig gyda banc,
  (iii) astudio, e.e. llythyr gan yr ysgol, y coleg neu'r brifysgol a thystiolaeth o ddigon o arian; neu
  (iv) hunangynhaliol, e.e. datganiadau banc.

Mae'n rhaid i aelodau teulu sy'n ddinasyddion Ardal Economaidd Ewropeaidd sy'n astudio neu sy'n annibynnol yn ariannol hefyd ddarparu tystiolaeth bod gan y dinesydd o Ardal Economaidd Ewropeaidd ac unrhyw aelodau o'r teulu yswiriant salwch cynhwysfawr yn y DU. Gall hyn gynnwys polisi yswiriant meddygol preifat, cerdyn EHIC neu ffurflen S1, S2 neu S3.

**Ni ddylid anfon dogfennau gwreiddiol at yr awdurdodau trwyddedu.** Os mai pasbort yw'r ddogfen a gopïwyd, dylid darparu copi o'r tudalennau a ganlyn:-

(i) unrhyw dudalen sy'n cynnwys manylion personol y deiliad, gan gynnwys cenedligrwydd;
(ii) unrhyw dudalen sy'n cynnwys ffotograff o'r deiliad;
(iii) unrhyw dudalen sy'n cynnwys llofnod y deiliad;
(iv) unrhyw dudalen sy'n cynnwys dyddiad dod i ben; a
(v) unrhyw dudalen sy'n cynnwys gwybodaeth yn dangos bod gan y deiliad ganiatâd i gael mynediad i, neu i aros, yn y DU â'r hawl i weithio.

Os nad pasbort yw'r ddogfen, dylid darparu copi o'r ddogfen gyfan.

Bydd eich hawl i weithio yn cael ei wirio fel rhan o'ch cais trwyddedu, a gall hyn olygu ein bod yn gwirio eich statws mewnfudo gyda'r Swyddfa Gartref. Fel arall, gallwn rannu gwybodaeth gyda'r Swyddfa Gartref. Ni wneir penderfyniad ar eich cais am drwydded hyd nes eich bod wedi cydymffurfio â'r canllaw hwn.